MINUTES OF A MEETING OF THE CYNGOR
HELD IN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF ON
DYDD MERCHER, 26 MEDI 2018

MEMBERS

Councillor Andy Williams, Mayor
Councillor Robert Walsh, Deputy Mayor

Councillor		Bryan Apsley	Councillor		Paul Jones
"	*	Andrew Atkinson	"	*	David Kelly
"	*	William Baldwin	"		M C King OBE
"		Trevor Bates	"		Geoff Lowe
"		Sonia Benbow-Jones	"		David Maddocks
"		David A Bithell	"		Tina Mannering
"		I David Bithell, MBE	"		John McCusker
"		Paul Blackwell	"		Joan Lowe
"		Brian Cameron	"		M G Morris
"	*	Krista Childs	"	*	Beverley Parry-Jones
"		Dana Davies	"		Paul Pemberton
"		Mike Davies	"	*	John Phillips
"	*	Michael Dixon	"		Ronnie Prince
"		T Alan Edwards	"		John Pritchard
"		Terry Evans	"		Mark Pritchard
"	*	Russell Gilmartin	"		Paul Roberts
"		D J Griffiths	"	*	Rondo Roberts
"		Carrie Harper	"	*	Graham Rogers
"		Frank Hemmings	"		Paul Rogers
"		Kevin Hughes	"	*	J R Skelland
"		R Alun Jenkins	"		Debbie Wallice
"		Adrienne Jeorrett	"	*	Barrie Warburton
"		Gwenfair Jones	"		Nigel Williams
"		Hugh Jones	"	*	Derek Wright
"		Marc Jones	"	*	Phil Wynn

*Absent

30 ATEB UNRHYW GWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD NEU DDERBYN DATGANIADAU CYHOEDDUS NEU DDEISEBAU DAN REOLAU SEFYDLOG 10 A 11 O REOLAU SEFYDLOG Y CYNGOR

Dywedodd y Maer na dderbyniwyd unrhyw gwestiwn, datganiad na deiseb gyhoeddus.

31 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Andrew Atkinson, William Baldwin, Krista Childs, Michael Dixon, Russell Gilmartin, David Kelly, Beverley Parry-Jones, John Phillips, Rondo Roberts, Graham Rogers, J R Skelland, Barrie Warburton a Derek Wright.

32 CYHOEDDIADAU'R MAER

Croesawodd y Maer y Prif Weithredwr newydd, Ian Bancroft, i gyfarfod y Cyngor llawn am y tro cyntaf.

Atgoffodd y Maer yr Aelodau bod tocynnau ar gyfer ei ginio a dawns elusennol yn y Ramada Plaza nos Wener 19 Hydref yn dal ar gael a gellid eu prynu o'r Swyddfa Ddinesig.

Diolchodd y Maer i'r aelodau oedd wedi cefnogi digwyddiadau'r RAF100 diweddar yng nghanol y dref y mis diwethaf. Dywedodd ei fod wedi cael braint o gynnig bod yr RAF yng Nghymru yn derbyn Rhyddid y Fwrdeistref Sirol ac roedd yn sicr y byddai hyn yn un o uchafbwyntiau ei gyfnod yn y swydd pan fyddai'n edrych yn ôl mewn blynyddoedd.

Cyfeiriodd y Maer at benwythnos aduniad cyn-filwyr y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol a gynhaliwyd ar 1 Medi. Roedd yn arbennig o falch o fod wedi cael cwrdd cymaint o'r cyn filwyr ac roedd y coffâd wrth gofeb y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol yn ffordd deilwng o gofio am y rheiny oedd wedi colli eu bywydau wrth wasanaethu gyda'r Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol. Nododd ei fod wedi bod yn braf gweld mwy o Gynghorwyr yn bresennol yn y seremoni eleni, a phwysleisiodd bwysigrwydd parhau i gefnogi'r digwyddiadau hyn mewn blynyddoedd i ddod.

Dywedodd y Maer ei fod ef ac Aelodau eraill wedi bod yn bresennol ar gyfer y gwasanaeth diweddar i goffau trychineb Pwll Glo Gresffordd. Mynychodd nifer o bobl y digwyddiad lleol pwysig hwn a bu'n fraint cwrdd rhai o'r bobl oedd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan y drychineb.

33 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD – Cadarnhau Cofnodion cyfarfod blynyddol Cyngor y Fwrdeistref Sirol a gynhaliwyd ar 22, 23 Mai, 12 Gorffennaf a 22 Awst 2018 fel cofnod cywir.

34 COFNODION Y BWRDD GWEITHREDOL A'R PWYLLGORAU

Ni chodwyd unrhyw faterion gan yr Aelodau mewn perthynas â Chofnodion y cyfarfodydd canlynol rhwng y cyfnodau a nodwyd:

Bwrdd Gweithredol - 8 Mai - 7 Awst 2018
Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol – 3 Mai 2018
Pwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddi – 7 Mawrth - 25 Gorffennaf 2018
Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd – 9 Mai - 11 Gorffennaf 2018
Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes – 19 Ebrill – 21 Gorffennaf 2018
Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles – 30 Ebrill - 18 Gorffennaf 2018
Pwyllgor Archwilio – 26 Gorffennaf 2018
Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol – 14 Mai – 23 Gorffennaf 2018
Pwyllgor Cynllunio – 4 Mehefin – 10 Awst 2018
Pwyllgor Safonau – 7 Mehefin 2018

35 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2017-18

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio adroddiad (HF/91/18) yn gofyn i Aelodau ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2017-18.

Diolchodd yr Arweinydd i Mr Jerry O'Keeffe am y gwaith roedd wedi ei wneud fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio at yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

(i) Nodi Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar gyfer 2017-18.

(ii) Cytuno ar Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r newidiadau.

(iii)Bod Aelodau'n cydnabod

a) pwysigrwydd rôl y Pwyllgor Craffu wrth ddarparu sicrwydd o effeithiolrwydd llywodraethu ar draws y Cyngor,
b)
c) a'r angen i'r holl Aelodau gwblhau'r Arolwg Blynyddol ar Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

(i) Sicrhau y gall y Cyngor ddal y Pwyllgor Craffu i gyfrif am ei effeithiolrwydd mewn perthynas â'i Gylch Gorchwyl.

36 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2017/18

Cyflwynodd yr Hyrwyddwr Craffu adroddiad (HF/90/18) yn galluogi'r Cyngor i adolygu perfformiad a'r gwaith a wnaed gan bwyllgorau craffu'r Awdurdod a'r gefnogaeth berthnasol yn 2017/18.

Diolchodd yr Arweinydd, ar ran yr holl Aelodau, i'r Cynghorydd Benbow-Jones am y gwaith roedd wedi ei wneud fel Hyrwyddwr Craffu. Cydnabuwyd ei bod wedi ymroi yn llwyr i'w rôl o ddatblygu'r gwaith craffu.

Penderfynwyd - Nodi gwaith y pwyllgor craffu yn y flwyddyn rhwng mehefin 2017 a mai 2018.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Cadw at ddarpariaethau perthnasol Cyfansoddiad y Cyngor.

37 GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (HCCS/18) oedd yn caniatáu i'r Cyngor ystyried ymarferoldeb a goblygiadau ymestyn ar y gweddarlledu yn y pwyllgorau Craffu.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd at y gwaith a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen oedd wedi ei sefydlu drwy'r Pwyllgor i ystyried y materion gweddarlledu mewn mwy o fanylder, gan gynnwys ymestyn y system gweddarlledu. Dywedodd fod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn seiliedig ar farn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried y wybodaeth fanwl hon.

Cynigwyd diwygiad gan yr Arweinydd, a eiliwyd, fel a ganlyn:

"Bod adnewyddiad y contract gweddarlledu ym mis Ionawr 2019 i ddarparu ar gyfer gweddarlledu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o Siambr y Cyngor yn ddibynnol ar argaeledd y Siambr ac unrhyw faterion ymarferol yn ystod gweddill blwyddyn y Cyngor a bod y calendr cyfarfodydd blynyddol ar gyfer 2019/20 yn ystyriol o hyn"

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei fod yn cefnogi'r diwygiad yn llwyr. Cydnabuwyd bod y diwygiad yn cefnogi ymhellach farn y Cyngor y dylai'r broses ddemocrataidd fod yn un dryloyw ac agored.

PENDERFYNWYD - Bod adnewyddiad y contract gweddarlledu ym mis Ionawr 2019 i ddarparu ar gyfer gweddarlledu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o Siambr y Cyngor yn ddibynnol ar argaeledd y Siambr ac unrhyw faterion ymarferol yn ystod gweddill blwyddyn y Cyngor a bod y calendr cyfarfodydd blynyddol ar gyfer 2019/20 yn ystyriol o hyn.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

i. I gryfhau ymgysylltiad â'r cyhoedd ac i ddangos bod y Cyngor yn agored ac yn dryloyw.
ii. Cyflawni ymarfer caffael priodol yn amserol.

38 ADOLYGIAD O PENODIADAU AELODAU I'R BWRDD GWEITHREDOL, PWYLLGORAU, PWYLLGORAU CRAFFU A PHANELI AMRYWIOL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (HCCS/54/18) er mwyn caniatáu i'r Cyngor ystyried cynrychiolwyr grwpiau gwleidyddol ar y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau, Pwyllgorau Craffu a Phaneli amrywiol a sefydlwyd gan y Cyngor fel rhan o'i Gyfansoddiad.

PENDERFYNWYD -

(i) Cymeradwyo'r Dyraniad Seddi, fel y nodir.

(ii) Bod y swyddi gwag yn cael eu llenwi fel a ganlyn:

Pwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddiad
(2 sedd)
Y Cynghorydd I David Bithell, MBE
Y Cynghorydd Robert Walsh

Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles
(1 sedd)
Y Cynghorydd Tina Mannering

Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes
(2 sedd)
Y Cynghorydd Tina Mannering
Y Cynghorydd Robert Walsh

Y RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

(i) Cytuno i benodi Aelodau i'r Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau, Pwyllgorau Craffu a Phaneli amrywiol a sefydlwyd gan y Cyngor fel rhan o'i Gyfansoddiad.

39 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r Cyfarfod, tra bod yr eitem a ganlyn yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai'r wybodaeth sydd wedi'i heithrio yn cael ei ddatgelu iddynt fel y diffinnir ym Mharagraff 15 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

40 STRWYTHUR UWCH RHEOLWYR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig adroddiad (CE/06/18) yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor am ganiatâd i ymgynghori ar gynnig i ddiwygio'r Strwythur Uwch-Reoli yn ddibynnol ar ganlyniadau ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion 3.1 a 3.2 fel y nodwyd yn adroddiad CE/06/18.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

(i) Galluogi ymgynghoriad i gychwyn ar y cynigion gyda'r uwch haen reoli a'r Undebau Llafur cydnabyddedig, a chael adborth gan Aelodau.

(ii) Ystyried adolygiadau i'r Strwythur Uwch-Reoli cyfredol.

(iii) Lliniaru yn erbyn risgiau posib i gyflogaeth, drwy gyflawni dull cydsyniol. consensual approach.

Councillor Andy Williams
Mayor